**CYNGOR SIR**

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun LL15 1YN, Dydd Mawrth, 11 Medi 2018 am 10.00 am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Mabon ap Gwynfor, Brian Blakeley, Ellie Chard, Ann Davies, Gareth Davies, Peter Arnold Evans, Hugh Evans, Bobby Feeley, Rachel Flynn, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Hugh Irving, Alan James, Brian Jones, Huw Jones, Tina Jones, Gwyneth Kensler, Geraint Lloyd-Williams, Richard Mainon, Christine Marston, Barry Mellor, Melvyn Mile, Bob Murray, Merfyn Parry, Paul Penlington, Arwel Roberts, Anton Sampson, Peter Scott (Cadeirydd), Glenn Swingler, Andrew Thomas, Rhys Thomas, Tony Thomas, Graham Timms, Joe Welch, Cheryl Williams, David Williams, Eryl Williams, Huw Williams, Emrys Wynne a/ac Mark Young

**HEFYD YN BRESENNOL**

Prif Weithredwr (JG), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus (GB), Pennaeth Gwasanaethau'r Gyfraith, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW), Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP), a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW)

Cynrychiolwyr o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru:
Prif Swyddog Tân - Simon Smith
Prif Swyddog Tân Cynorthwyol - Helen MacArthur
Prif Swyddog Tân Cynorthwyol - Sian Morris, a
Dirprwy Gadeirydd Bwrdd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru – Cynghorydd Peter Lewis.

**1 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Meirick Davies, Tony Flynn, Pat Jones, Pete Prendergast a/ac Julian Thompson-Hill

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Datganodd y Cynghorydd Ann Davies a Peter Evans gysylltiad personol ag eitem 6 oherwydd eu bod yn aelodau o Fwrdd yr Awdurdod Tân.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Dim materion brys.

Ar y pwynt hwn, dywedwyd wrth aelodau y byddai tri chwestiwn yn cael eu cyflwyno fel a ganlyn:

(i) Cododd y Cynghorydd Glenn Swingler y cwestiwn a ganlyn:

A fyddai’r Aelod Arweiniol sy’n gyfrifol cystal â rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r cyngor am waith a wnaed hyd yma ar y cynnig i ddarparu cynnyrch glanweithiol rhad ac am ddim i ferched ifanc yn ein hysgolion?

Ymateb gan yr Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc, y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts:

Mae gwaith wedi’i wneud a chysylltwyd â phob ysgol i ddeall anghenion y mater. Roedd yn eithaf clir gan yr ysgolion a’r penaethiaid nad oeddent o’r farn bod angen a diffyg ar hyn o bryd ac roedd yn cael ei reoli’n dda. Fodd bynnag, yr hyn rydym wedi’i wneud yn ogystal â hyn, yw rydym yn buddsoddi £23,732 mewn offer glanweithiol mewn ysgolion, sy’n cael ei ddosbarthu gan ddefnyddio elfen ysgolion y fformiwla ariannu cyfalaf a hefyd mae £7,388 pellach sy’n cael ei ddosbarthu gan ddefnyddio’r fformiwla asesu gwariant llywodraeth leol safonol diweddaraf. Mae hyn wedi’i basio drwy’r tîm digartrefedd sydd wedi trefnu bod Tŷ Golau yn caffael, storio a dosbarthu cynnyrch hylendid i ferched. Caiff £1,000 ei gadw ar gyfer cynnyrch ad hoc. Mae hyn yn nhermau’r llythyr a gafwyd gan y Gweinidog yng Nghaerdydd yn cefnogi hyn. Hefyd, beth sydd wedi bod ar flaen yr ysgolion yw’r ymgyrch i roi terfyn ar dlodi mislif. Mae hyn wedi’i ddefnyddio gan yr ysgolion i godi ymwybyddiaeth ac mae’r padiau ar gael i ysgolion gwladol y DU yn unig ac o leiaf 1% o ferched sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Rydym wedi gwneud gymaint ag a allwn o fewn cyfyngiadau’r gyllideb sydd gennym, a gwnaethom roi’r sicrwydd hwnnw y tro diwethaf yng nghyfarfod y Cyngor.”

Yna gofynnodd y Cynghorydd Glenn Swingler a fyddai’r mater yn cael ei gyflwyno i’r Cabinet yn y cyfarfod nesaf.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd nad oedd yr eitem ar y rhaglen ar gyfer cyfarfod nesaf y Cabinet oherwydd nad oedd angen penderfyniad ffurfiol ar gyfer y camau gweithredu a gymerwyd ond, os nad oedd aelodau yn fodlon â hynny, gallent siarad â’r Aelod Arweiniol am unrhyw gynigion yn y dyfodol i’w gynnwys ar unrhyw raglen yn y dyfodol.

(ii) Cododd y Cynghorydd Rhys Thomas y cwestiwn a ganlyn:

Yn ôl y Gymdeithas Llywodraeth Leol, mae pryder difrifol fod cyfyngiadau ariannol yn ei gwneud yn fwyfwy anodd i ddiogelu plant diamddiffyn rhag niwed. Yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf, mae pob Awdurdod Lleol yng Nghymru wedi gweld cynnydd o tua 10% o ran nifer y plant sy’n dod i ofal yr Awdurdod Lleol.

Mae’r Cyngor hwn wedi addo bod diogelu plant diamddiffyn rhag niwed yn brif flaenoriaeth. A all yr Aelod Arweiniol sicrhau’r Cyngor hwn na fydd unrhyw blant neu bobl ifanc yn Sir Ddinbych yn dod i niwed oherwydd cyfyngiadau ariannol ar yr adrannau dan sylw ac a all egluro wrth y Cyngor hwn sut caiff ein gallu i ddiogelu’r plant a phobl ifanc diamddiffyn hyn ei gynnal a’i estyn hyd yn oed, yn ôl yr angen?

Ymateb gan yr Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc, y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts:

I'r rhai a fynychodd y sesiwn friffio Gwasanaethau Plant yn gynharach yn y flwyddyn, roedd cyllideb yr aeth Karen I Evans a Julie Moss â ni drwyddi o ran proses plant sy'n derbyn gofal yma yn Sir Ddinbych. Mae neges gref iawn a ddaeth o'r gweithdy hwnnw, sef y bydd Sir Ddinbych bob amser yn rhoi blaenoriaeth i blant sy'n derbyn gofal. Ni fydd unrhyw gyfyngiad cyllidebol yn atal y gofal mae'r plant hynny'n ei haeddu. Rydym eisoes wedi gweld yn y gyllideb lle mae gorwariant yn y maes, oherwydd os oes rhywun mewn angen yma yn Sir Ddinbych, a bod rhaid i ni ofalu amdanynt y tu allan i'r sir, rhaid i ni ganfod arian i wneud hynny a byddwn bob amser yn gwneud hynny. Ffigurau plant sy'n derbyn gofal yn Sir Ddinbych:

2013/14 – 160
2015 – 160
2016 – 175
2017 – 165

Ni allaf roi'r ffigurau i chi heddiw oherwydd eu bod yn newid yn barhaus. Mae dyletswyddau cyfreithiol penodol a roddir ar yr Awdurdod Lleol i ddiogelu'r lles sy'n diwallu anghenion y plant sy'n dod i'n gofal. Nid yw'n fater o ddewis ond mae'n ddyletswydd y mae'n rhaid cydymffurfio â hi. Mae'r gwasanaeth yn ymrwymedig i flaenoriaethu'r adnodd i ddiwallu anghenion y plant hynny sydd fwyaf diamddiffyn. Yn y pen draw, mae'r capasiti i ddiwallu anghenion y plant hyn yn fater i'r cyngor cyfan oherwydd bydd yn fater a blaenoriaeth o ran rheoli adnoddau fel rhan o'r broses o osod y gyllideb. Ar hyn o bryd mae gennym orwariant a byddwn bob amser yn rhoi'r plant hyn fel blaenoriaeth."

Dywedodd y Cynghorydd Rhys Thomas ei fod yn falch bod yr Aelod Arweiniol wedi cyfeirio at Her Gwasanaeth Addysg a Phlant ar 8 Chwefror 2018. Fel aelod o'r Panel hwnnw, dywedodd fod tair her wedi'u rhoi i'r Gwasanaeth. Y drydedd her oedd y dylai edrych ar ei strwythurau rheoli perfformiad er mwyn cryfhau ei allu i ragweld tueddiadau yn y dyfodol. Dywedodd fod rhagweld tueddiadau yn y dyfodol yn golygu mewn gwirionedd ei fod yn god ar gyfer pryd fyddai'r gyllideb yn peidio cynyddu. Gofynnodd bod eglurhad yn cael ei roi i'r Cyngor. Rhoddwyd sicrwydd iddo gan beth ddywedodd yr Aelod Arweiniol, ond gofynnodd am eglurhad o ran sut byddai plant diamddiffyn yn brif flaenoriaeth bob amser pan oedd y gwasanaeth yn cael ei herio i sicrhau bod ei gostau dan reolaeth?

Ymatebodd yr Aelod Arweiniol, y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts fel a ganlyn:

Rydym wedi rhoi ymateb cadarnhaol i'r Her honno, oherwydd mae Estyn wedi adrodd yn ôl fod gwaith ailstrwythuro mawr ar gyfer y gwasanaeth a ddaeth â gwasanaethau addysg a phlant at ei gilydd wedi bod yn ffactor sylfaenol yn llwyddiant yr hyn rydym yn ei wneud. Mae gennym sbectrwm nawr oherwydd mae'r ddwy adran gyda'i gilydd nawr ac rydym yn gwybod ar unrhyw adeg lle mae'r plentyn hwnnw yn ei gylch. O'r blaen, roedd gwahanol adrannau yn gweithio ac nid oeddent yn siarad â'i gilydd. Roedd hynny wedi'i gydnabod gan Estyn ein bod yn eithaf unigryw yn y ffordd rydym yn gwneud hynny, ac mae'n helpu i nodi plant yn gyflymach i gael y gwasanaethau cywir iddynt ac i sicrhau eu bod yn cael y gofal

gorau posibl maen nhw'n ei haeddu. Mae cyfyngiadau'r gyllideb yn dal i fod yno ond beth rydym yn ei ddweud yw hyd yma, byddwn yn dal i gynnal y gyllideb mewn gwasanaethau plant, nid yw dan y chwyddwydr ar gyfer toriad yn y rownd nesaf. Rydym yn ymrwymedig iawn ein bod yn rhoi'r gorau i'n plant ac mae gennym gyfrifoldeb cyfreithiol lle mae'n rhaid i ni dderbyn y plant hyn, a byddwn yn gwneud hynny, ac nid wyf yn credu y byddai unrhyw Gynghorydd yn yr ystafell hon yn cefnogi'r safbwynt na wnaethom hynny.

(iii) Cododd y Cynghorydd Graham Timms y cwestiwn a ganlyn:

Yng nghyfarfod y Cyngor llawn ar 30 Ionawr eleni, gwnaeth pob aelod a oedd yn bresennol gytuno'n unfrydol i gynnig a oedd yn gofyn i'r swyddogion perthnasol gyflwyno adroddiad ar oblygiadau ariannol ac AD sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Cyflog Byw Real erbyn diwedd 2018.

Yn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol a gytunwyd yng nghyfarfod y Cyngor llawn ar 3 Gorffennaf eleni, dywedwyd y byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn yng nghyfarfod mis Medi. Fodd bynnag, pan ddosbarthwyd y papurau ar gyfer y cyfarfod, nid oedd yr adroddiad Cyflog Byw Real ar y rhaglen ac roedd yr adroddiad wedi'i ohirio tan fis Rhagfyr.

Edrychaf ymlaen at gael yr adroddiad yn ein cyfarfod ym mis Rhagfyr ac rwy'n sylweddoli bod yr amser wedi'i aildrefnu yn dal i fodloni terfyn amser diwedd 2018 a nodwyd yn y cynnig diwygiedig. Fodd bynnag, a fyddai'n bosibl i'r Aelod Cabinet sy'n gyfrifol egluro pam roedd angen gohirio'r adroddiad ac a fyddai hefyd yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cyngor am y cynnydd a wnaed hyd yma o ran y mater pwysig hwn?

Ymateb yr Aelod Arweiniol Safonau Corfforaethol, y Cynghorydd Mark Young (ar ran yr Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill):

Darllenodd y Cynghorydd Mark Young ymateb ysgrifenedig gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill nad oedd yn gallu mynychu'r cyfarfod yn anffodus.

(Cyfieithiad)
"Yn anffodus, ni fyddaf yn bresennol yng nghyfarfod y Cyngor fory, felly yn unol â'r cyfansoddiad, rwy'n ymateb i chi yn ysgrifenedig.

Fel rydych yn ei ddweud, roedd y cynnig diwygiedig a gytunwyd ar y testun hwn yn nodi y byddai'n cael ei adrodd yn ôl i'r Cyngor erbyn diwedd y flwyddyn galendr hon. Rydych hefyd yn gywir fod hyn ar y rhaglen gwaith i'r dyfodol y tro diwethaf ar gyfer mis Medi. Roedd hyn wedi'i nodi fel bod yn anghywir ar ôl ei chyhoeddi pan ddylai fod wedi'i nodi ar gyfer diwedd y flwyddyn ond yn amlwg, nid oedd yn werth ailgyhoeddi'r ddogfen bryd hynny. Felly, nid yw'r papur wedi'i ohirio.

Fel rwy'n siŵr eich bod hefyd yn ymwybodol, mae hwn yn fater cymhleth iawn. Elfen allweddol wrth amcangyfrif effaith ariannol y Cyflog Byw Real yw deall yn llawn beth yw effaith y dyfarniad cyflog diweddaraf a'r amrywiaeth o effeithiau

canlyniadol posibl ar strwythur graddio'r cyngor. Mae'r dasg hon yn barhaus ar hyn o bryd ac mae gwaith modelu cyflogau manwl yn digwydd. Mae'n broses gymhleth. Pan fydd canlyniad gweithredu'r dyfarniad cyflog wedi'i gwblhau a phan fydd sefyllfa fwy pendant am y strwythur graddio yn y dyfodol wedi'i sefydlu, gellir asesu'r gost wahaniaethol rhwng graddfeydd cyflogau'r cyngor a'r Cyflog Byw Real. Mae amcangyfrifon pellach ar sail yr effaith bosibl ar gontractau allanol allweddol hefyd yn cael eu hystyried. Caiff yr adroddiad ei gyflwyno ym mis Rhagfyr, yn unol â'r cynnig a basiwyd yn y Cyngor Llawn.

Rwy'n ffyddiog y bydd hyn yn egluro faint o waith ac ystyriaeth sydd ei angen ar y cynnig hwn er mwyn darparu'r data angenrheidiol i aelodau er mwyn iddynt wneud penderfyniad cwbl ddeallus am pa waith mae'r tîm yn yr adran Gyllid ac AD yn bwrw ymlaen ag ef ar hyn o bryd."

Ymatebodd y Cynghorydd Graham Timms nad oedd yn fodlon a byddai'n gofyn cwestiwn pellach:
Newidiwyd yr eitem o gyfarfod mis Medi a chafodd ei roi ar gyfarfod mis Rhagfyr. Cefais drafodaethau helaeth gyda swyddogion y sir a grwpiau am amseriad ac un o'r ffactorau pwysig oedd ei wahanu oddi wrth y dyfarniad cyflog a gafodd ei setlo ar 9 Ebrill felly nid oedd yn gorgyffwrdd â'r gyllideb. Mae'n beryglus cymysgu'r ddau. Nid wyf yn cytuno nad yw'n werth rhoi gwybod i'r Cyngor ei fod wedi'i ohirio. A fyddai'n bosibl ei symud ymlaen i'n cyfarfod nesaf er mwyn ei gyflwyno cyn i'r gyllideb fynd rhagddi?

Cadarnhaodd Pennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd y byddai'n cysylltu â'r tîm a gofyn iddynt ymateb yn uniongyrchol i'r Cynghorydd Timms yn ystod yr wythnos bresennol o ran y terfyn amser.

## 4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD

Roedd rhestr o ddigwyddiadau dinesig a fynychwyd gan y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd ar gyfer y cyfnod rhwng 26 Mehefin 2018 a 2 Medi 2018 wedi'i dosbarthu cyn y cyfarfod.

Tynnodd y Cadeirydd sylw at ddau ddigwyddiad, sef Derbyniad VIP Diwrnod Cenedlaethol y Lluoedd Arfog a oedd wedi'i gynnal yn Llandudno ac arddangosfa Tom Pryce a oedd wedi'i gynnal yn Ninbych. Roedd pob digwyddiad a fynychwyd wedi bod yn llwyddiant mawr.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y rhestr o ddigwyddiadau dinesig y bu i'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd eu mynychu.*

## 5 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 3 Gorffennaf 2018.

Materion yn Codi:

Tudalen 8 (Eitem 3) – Gofynnodd y Cynghorydd Arwel Roberts am ragor o fanylion am y Grŵp Tasg a Gorffen a oedd wedi'i sefydlu gan GwE ar gyfer anghenion plant â materion cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cadarnhaodd yr Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc, y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts fod disgwyl cael gwybodaeth yn ddiweddarach yn y mis. Nid oedd gwybodaeth wedi dod i law hyd yma oherwydd seibiant gwyliau'r haf.

Tudalen 8 (eitem 5) – gofynnodd y Cynghorydd Mabon ap Gwynfor am y wybodaeth ddiweddaraf o ran Gorfodi a Kingdom.

Cadarnhaodd yr Aelod Arweiniol Tai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd, y Cynghorydd Tony Thomas, y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Cabinet ar 25 Medi 2018 ond nid oedd penderfyniadau wedi'u gwneud hyd yma.

Tudalen 10 (eitem 7) – Gofynnodd y Cynghorydd Emrys Wynne i ba Bwyllgor Craffu fyddai mater Plastigau Defnydd Untro yn cael ei gyflwyno.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus a Phennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd y byddai'r eitem yn cael ei thrafod yng nghyfarfod Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu ym mis Hydref a byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn yn naill ai fis Mai neu fis Mehefin 2019. Roedd Grŵp Tasg a Gorffen Craffu a oedd yn cynnwys 8 aelod (2 o bob grŵp gwleidyddol) wedi'i sefydlu i drafod defnydd plastigau. Roedd y mater yn cael sylw ond roedd yn rhy gynnar yn y broses i roi diweddariad.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, cadarnhau cofnodion y cyfarfod Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 3 Gorffennaf 2018 fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.*

## 6 AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU: DIWEDDARIAD ARIANNOL AC YMGYNGHORIAD 2019-20

Datganodd y Cynghorwyr Ann Davies a Peter Evans gysylltiad personol oherwydd eu bod yn aelodau o Fwrdd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Roedd aelodau o Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn bresennol i gyflwyno Diweddariad Ariannol ac Ymgynghoriad 2019/20.

Yn bresennol roedd:
Prif Swyddog Tân - Simon Smith
Prif Swyddog Tân Cynorthwyol - Helen MacArthur
Prif Swyddog Tân Cynorthwyol - Sian Morris, a
Dirprwy Gadeirydd Bwrdd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru – Cynghorydd Peter Lewis

Cyflwynodd y Cynghorydd Peter Lewis y swyddogion ac eglurodd mai pwrpas y cyflwyniad oedd rhoi gwybod i'r Cyngor am y gwaith a wnaed gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ynghyd ag anawsterau ariannol a wynebir yn y dyfodol.

Eglurodd y Prif Swyddog Tân, Simon Smith, mai canolbwynt y cyflwyniad fyddai'r adnoddau sydd ar gael. Roedd y cyflwyniad yn cyd-daro â lansiad dogfen ymgynghori'r Awdurdod Tân, ac roeddent yn chwilio am ymatebion anffurfiol gan Gynghorwyr, ond hefyd ymateb ffurfiol gan Gyngor Sir Ddinbych.

Eglurodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Sian Morris, fod pob un o'r chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru wedi'u cynrychioli ar Fwrdd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Nid oedd y Bwrdd yn seiliedig ar gydbwysedd gwleidyddol.

Arweiniodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Sian Morris, a'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Helen MacArthur, yr aelodau drwy'r cyflwyniad.

Roedd dyletswyddau'r Awdurdod Tân ac Achub yn bellgyrhaeddol. Roedd dyletswydd arnynt i sicrhau bod yr holl ddiffoddwyr tân wedi'u hyfforddi'n llawn a bod ganddynt offer i ymateb. Roedd mwyafrif y diffoddwyr tân a gyflogwyd yn ddiffoddwyr tân wrth gefn.

Roedd alldaliadau'r gyllideb wedi'u nodi yn y cyflwyniad fel a ganlyn:

- Cludiant - 3%
- Eiddo - 5%
- Ariannu Cyfalaf - 8%
- Cyflenwadau - 10%
- Gweithwyr - 71%, a
- Darparu gan gyflenwyr allanol a chefnogaeth - 2%

Drwy'r pum mlynedd blaenorol, roedd camau wedi'u cymryd i leihau gwariant:

- Arbedion
  - Tynnwyd £2.1m o gyllidebau staff a £0.7m o gyllidebau nad ydynt yn ymwneud â thâl
- Arbedion effeithlonrwydd
  - Newidiadau polisi.
    Nid ydym yn ymateb i'r canlynol bellach:
    - larymau tân awtomatig, ond aros am alwad 999, ac
    - achub anifeiliaid mawr
  - Pwyslais parhaus ar leihau galw (atal)
- Enillion annisgwyl achlysurol
- Defnyddio'r cronfeydd wrth gefn roedd wedi'u cronni

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Tân ei fod yn dawedog o ran cynhyrchu incwm oherwydd gallai achosi materion ac nid oedd yn annog nawdd, roedd yn well ganddynt gadw eu hannibyniaeth, hygrededd ac enw da.

Byddai cynnydd yn yr ardoll a delir i Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn cael effaith ar Sir Ddinbych oherwydd y toriadau mae Awdurdodau Lleol yn eu hwynebu a sut byddai'r pwysau'n cael eu trin.

Cadarnhaodd y Swyddog Adran 151 y byddai'r cynnig a'r cynllun ariannol a gyflwynwyd yn gweld lefel o gynnydd a gynigir i fod yn gynnydd o ran arian parod o £258,000 a fyddai ychydig yn is na chynnydd o 6%. Byddai hyn yn achosi goblygiad ychwanegol ar gyfer 2019 oherwydd roedd ffigurau'r gyllideb wedi'u cyfrifo ar ragdybiad o gynnydd o 2%. Byddai hyn yn cael effaith ar lefel Treth y Cyngor a'r cyllid a gaiff ei flaenoriaethu o wasanaethau eraill.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Tân, fod yr holl ddewisiadau a oedd wedi'u hystyried, a goblygiadau cost pob un wedi'u cynnwys yn y ddogfen ymgynghori. Cytunwyd na fyddai unrhyw wasanaethau rheng flaen yn cael eu torri.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cyngor Llawn yn nodi cyflwyniad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**.***

**Ar yr adeg hon (11.35 a.m.) cafwyd egwyl o 25 munud.**

**Ailddechreuodd y cyfarfod am 12.00 hanner dydd.**

## 7 HYFFORDDIANT A DATBLYGU AELODAU

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Safonau Corfforaethol, y Cynghorydd Mark Young, yr adroddiad (a ddosbarthwyd eisoes) i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau o ran hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant yn ôl disgresiwn a chosbau posibl.

Roedd adroddiad wedi'i gyflwyno yn y Cyngor Llawn ar 10 Ebrill 2018 ar Hyfforddiant a Datblygu Aelodau a chytunwyd bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno o ran hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant yn ôl disgresiwn a chosbau posibl.

Roedd Aelodau wedi canmol safon ardderchog hyfforddiant mewnol a ddarparwyd yn ystod tymor newydd y Cyngor hwn.

Ni osodwyd unrhyw gosb gan y Cyngor blaenorol (ar wahân i'r Pwyllgor Cynllunio) os oedd aelod yn peidio â mynychu hyfforddiant gorfodol.

Gofynnodd y Cynghorydd Paul Penlington a oedd modd trosglwyddo cyrsiau hyfforddi oherwydd ei fod yn dilyn hyfforddiant fel rhan o'i swydd. Cadarnhaodd Pennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd bod modd eu hystyried.

Roedd Adolygiadau Datblygu Perfformiad (PDR) yn cael eu cynnig i bob aelod ond roedd ganddynt ddewis a oeddent am gymryd rhan neu beidio. Roedd PDR yn ffordd o nodi a chefnogi anghenion hyfforddiant a datblygu Cynghorydd.

Byddai unrhyw hyfforddiant a nodwyd fel "gorfodol" yn cael ei gynnig ar amseroedd priodol i alluogi Aelodau i gyflawni eu rhwymedigaethau. Roedd E-ddysgu ar gyfer Aelodau yn cael ei ddatblygu a byddai'n cynnig modiwlau gan gynnwys diogelu a

thrais domestig. Mewn rhai achosion, byddai modiwlau e-ddysgu yn gost-effeithiol a byddent yn ffordd gyfleus i Aelodau gael mynediad i hyfforddiant.

Ar ôl trafodaeth, cytunwyd y byddai'r canlynol yn gyrsiau hyfforddiant gorfodol:

- Cod Ymddygiad – roedd hyfforddiant yn ofyniad yn y Cod ei hun a hyd yma, roedd presenoldeb Aelodau wedi bod yn 100%.
- Cynllunio – Cynhelir dau ddigwyddiad hyfforddiant bob blwyddyn.
  Os na fyddai unigolyn wedi mynychu'r sesiynau hyfforddiant, ni allai gymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau na phleidleisio.
- Trwyddedu - Os na fyddai unigolyn wedi mynychu'r sesiynau hyfforddiant, ni allai gymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau na phleidleisio.

Cytunwyd ar hyfforddiant gorfodol ar gyfer y canlynol hefyd:

- Cyllid – Cyllid Llywodraeth Leol – cynhelir hyfforddiant unwaith yn ystod tymor cyngor.
- Diogelu – cynhelir hyfforddiant unwaith yn ystod tymor cyngor.
- Rhianta Corfforaethol – cynhelir hyfforddiant unwaith yn ystod tymor cyngor.
- Diogelu Data (GDPR) – cynhelir hyfforddiant yn flynyddol.

Cytunwyd i roi'r cosbau a ganlyn ar waith os na fydd unigolion yn mynychu hyfforddiant gorfodol:

- Cyhoeddi gwybodaeth ar y wefan unwaith y flwyddyn o ran pwy oedd wedi mynychu cyrsiau hyfforddiant gorfodol a phwy nad oedd wedi'u mynychu.
- Trafodwyd i ddechrau bod rhestr o rai nad oedd wedi mynychu hyfforddiant gorfodol yn cael ei hanfon i'r Pwyllgor Safonau er mwyn i Gynghorwyr egluro pam nad oeddent wedi cydymffurfio mewn cyfarfod cyhoeddus.
  Yn ystod trafodaethau, awgrymwyd a chytunwyd bod rhestr o unigolion a oedd wedi mynychu hyfforddiant gorfodol a rhai nad oedd wedi'i fynychu yn cael ei dosbarthu i Arweinwyr Grŵp a byddent yn ymgynghori gyda'u Haelodau wedyn i ganfod rhesymau dros beidio mynychu.

***PENDERFYNWYD*** *bod y cyrsiau hyfforddiant a ganlyn yn orfodol:*

*(i) Cod Ymddygiad*
*(ii) Cynllunio*
*(iii) Trwyddedu*
*(iv) Cyllid – Cyllid Llywodraeth Leol*
*(v) Diogelu*
*(vi) Rhianta Corfforaethol a*
*(vii) Diogelu Data*

*Y cosbau sydd i'w gosod yw bod enwau'r unigolion sydd wedi mynychu a'r rhai nad ydynt wedi mynychu'r hyfforddiant gorfodol yn cael eu hychwanegu i'r wefan bob blwyddyn, a bod rhestrau yn cael eu dosbarthu i Arweinwyr Grwpiau eu monitro.*

**8 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL**

Cyflwynodd y Cynghorydd Barry Mellor yr adroddiad, fel Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (dosbarthwyd eisoes) i roi gwybod i bob aelod am waith y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn y cyngor 2017/18.

Roedd gofyn statudol i'r Cyngor, dan ddarpariaethau Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2011, fod â Phwyllgor Archwilio. Y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (y Pwyllgor) oedd pwyllgor dynodedig y Cyngor ar gyfer y diben hwn.

Hwn oedd Adroddiad Blynyddol cyntaf y Pwyllgor ers etholiadau llywodraeth leol 2017.

Cydnabu'r Pwyllgor ei fod wedi bod yn dysgu am ei rolau a'i gyfrifoldebau yn ystod y cyfnod hwn. Yn ystod y cyfnod a gaiff ei gwmpasu gan yr adroddiad a ddosbarthwyd, roedd y Pwyllgor wedi cael:

- nifer o adroddiadau blynyddol mewnol ar faterion sy'n ymwneud â llywodraethu.
- nifer o adroddiadau sy'n ymwneud â materion ariannol
- adroddiadau rheoleiddio allanol
- adroddiadau am raglen waith Swyddfa Archwilio Cymru
- adroddiadau rheolaidd gan y Prif Archwilydd Mewnol am gynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Archwilio Mewnol
- adroddiadau sy'n adolygu materion corfforaethol eraill gan gynnwys y Fframwaith Rheoli Risg Strategol a pharatoadau'r Cyngor ar gyfer cyflwyno'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.

Cymerodd y Cynghorydd Barry Mellor y cyfle i ddiolch i gynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru a'r holl swyddogion sy'n mynychu'r cyfarfodydd Llywodraethu Corfforaethol. Yn benodol, cydnabu faint o waith a wnaed gan y tîm Archwilio Mewnol. Rhoddwyd diolch i bob aelod o'r Pwyllgor oherwydd roedd y rhaglenni yn aml yn hir, ond roedd aelodau'r Pwyllgor bob amser wedi paratoi'n dda ar gyfer y cyfarfod. Diolchwyd i Aelodau Arweiniol hefyd am eu presenoldeb mewn Pwyllgorau ac am eu cefnogaeth.

Mynegodd Aelodau eu diolch i'r Cadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol am eu holl waith caled. Diolchodd y Cynghorydd Huw Jones i Gadeirydd blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, Jason McLellan am ei waith caled dros y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD*** *bod Aelodau'r Cyngor Llawn yn nodi cynnwys yr adroddiad.*

**9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR**

Cyflwynodd Pennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (dosbarthwyd eisoes).

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i symud yr eitem Fframwaith Datblygu Cenedlaethol o 5 Tachwedd 2018 i 18 Mawrth 2019 wrth aros am adborth gan Lywodraeth Cymru.

Dylid ychwanegu Menter Cefndy at 5 Tachwedd 2019 ar gyfer cyflwyniad gan y Rheolwr Gwasanaeth Masnachol a’r Rheolwr Gwasanaethau Gweithredol i roi gwybod i'r Cynghorwyr i gyd am y gwaith a wnaed gan Fenter Cefndy.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo a nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor.*

**DAETH Y CYFARFOD I BEN AM 1.00 P.M.**